**Dyddiad cyhoeddi** Rhagfyr 2010

**Deall canllawiau NICE**

**Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG**

NHS
National Institute for Health and Clinical Excellence

# Trin sbastigedd ym mharlys yr ymennydd drwy dorri nerfau dethol yn rhan isaf asgwrn y cefn (rhisotomi dethol y cefn)

*Mae arweiniad Techlechyd NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar pryd a sut y gellir defnyddio triniaethau llawfeddygol newydd mewn arfer clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir torri nerfau dethol yn rhan isaf asgwrn y cefn yn y GIG i drin pobl â sbastigedd ym mharlys yr ymennydd.  Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu rhieni neu ofalwyr y cynigiwyd y driniaeth hon i'w plentyn fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio parlys yr ymennydd na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o dîm gofal iechyd eich plentyn hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i feddyg eich plentyn i'ch helpu i benderfynu. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

## Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Dengys y dystiolaeth fod y driniaeth yn effeithiol ond y gall cymhlethdodau fod yn ddifrifol. Gellir cynnig y driniaeth hon felly yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth ar gyfer sbastigedd ym mharlys yr ymennydd, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y rhieni neu'r gofalwyr yn deall beth mae'n ei olygu a'u bod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylid dweud wrth rieni neu ofalwyr na ellir dadwneud y driniaeth, y gallai'r gallu i gerdded a defnydd y bledren ddirywio, ac y gellir cael problemau yn nes ymlaen, megis anffurfiad yr asgwrn cefn. Dylent ddeall y bydd angen ffisiotherapi estynedig ac ôl-ofal ac efallai y bydd angen llawdriniaeth ychwanegol.

Dylai tîm gofal iechyd wedi'i hyfforddi'n arbennig a chanddo wybodaeth arbenigol am reoli sbastigedd ym mharlys yr ymennydd, a mynediad i'r ystod lawn o opsiynau triniaeth, benderfynu pa gleifion fyddai'n cael budd o'r driniaeth hon ac a ddylai ei chael. Byddai ffisiotherapydd, pediatregydd a llawfeddygon fel arfer yn rhan o'r tîm.

Mae NICE wedi annog rhagor o waith ymchwil i'r driniaeth hon.

## Torri nerfau dethol yn rhan isaf asgwrn y cefn

*Efallai nad hon fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer sbastigedd ym mharlys yr ymennydd. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i'ch plentyn a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.*

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw ‘Rhisotomi dethol y cefn ar gyfer sbastigedd ym mharlys yr ymennydd’. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Cyflwr ar yr ymennydd yw parlys yr ymennydd sy'n effeithio ar symudiad, osgo a chydsymudiad. Efallai y caiff ei weld o amgylch adeg y geni neu efallai na ddaw'n amlwg tan blentyndod cynnar. Bydd gan rai plant sbastigedd yn y coesau, a all achosi problemau wrth gerdded ac eistedd, yn ogystal ag anesmwythder, crampiau a gwingiadau.

Mae rhisotomi dethol y cefn yn llawdriniaeth fawr sy'n anelu at leihau faint o wybodaeth a gaiff ei chario gan y nerfau synhwyro. Tra bod y claf o dan anesthetig cyffredinol, gwneir toriad yn rhan isaf asgwrn y cefn ac i mewn i bibell yr asgwrn cefn er mwyn amlygu llinyn y cefn a'r nerfau is. Caiff y nerfau synhwyro sy'n cario gwybodaeth o'r cyhyrau yn y coesau eu torri. Ni chaiff y nerfau sy'n gwneud i'r cyhyrau gywasgu eu torri. Ar ôl y driniaeth bydd angen ffisiotherapi ac ôl-ofal hirdymor ar gleifion ac efallai y bydd angen iddynt ddysgu cerdded eto.

Ymysg llawdriniaethau eraill ar gyfer sbastigedd mae tendonotomi (torri'r tendonau), niwrotomi (torri'r nerfau), osteotomi (torri'r esgyrn), ac ymestyn y tendonau. Ymysg opsiynau triniaeth eraill mae cyffuriau (baclofen, tocsin botwloniwm), defnyddio fframiau cywirol, ffisiotherapi, a symbylu trydanol y cyhyrau neu ran isaf llinyn y cefn.

## Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio’n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw meddyg eich plentyn o'r farn bod hon yn driniaeth addas, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno iddi.

### Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw’r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl i'm plentyn?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i'm plentyn? A allai cael y driniaeth waethygu pethau?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw’r risgiau’n fach neu’n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen ar fy mhlentyn ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o’i le?
- Beth allai ddigwydd os na fydd fy mhlentyn yn cael y driniaeth?

*Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.*

## Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 13 o astudiaethau o'r driniaeth hon.

### Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Nododd astudiaeth o 142 o gleifion welliant llawer yn fwy (lleihad) o ran tyndra cyhyrau ar ôl blwyddyn mewn 71 o gleifion a gafodd y driniaeth o gymharu â 71 o gleifion a gafodd therapi baclofen. Mewn adroddiad ar dair astudiaeth (90 o gleifion), roedd cleifion a gafodd y driniaeth ynghyd â ffisiotherapi yn gallu symud o amgylch naw mis (un astudiaeth) a 12 mis (dwy astudiaeth) ar ôl y driniaeth (8% o welliant yn y sgôr Mesur Swyddogaeth Echddygol Manwl) o gymharu â chleifion a gafodd ffisiotherapi yn unig (4% o welliant yn y sgôr Mesur Swyddogaeth Echddygol Manwl).

Mewn astudiaeth o 108 o gleifion, gwellodd y sgôr Mesur Swyddogaeth Echddygol Manwl 6% (pum pwynt) ar ôl 20 mis mewn cleifion a gafodd y driniaeth ynghyd â ffisiotherapi o gymharu â 2% (dau bwynt) mewn cleifion a gafodd ffisiotherapi yn unig. Nododd astudiaeth o 14 o gleifion fod 10 wedi cael gwelliant parhaus 20 mlynedd ar ôl y driniaeth ac o'r 14 i gyd roedd angen o leiaf un llawdriniaeth bellach ar 9.

Yn yr astudiaeth o 142 o gleifion, roedd 94% o rieni y cafodd eu plentyn y driniaeth yn fodlon â chanlyniad y driniaeth flwyddyn yn ddiweddarach a 96% o rieni y plant a gafodd therapi baclofen.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai'r nodau oedd lleihau sbastigedd y coesau, llai o angen am driniaethau cywiriol, ansawdd bywyd, a gwelliannau o ran gallu'r cleifion i symud, osgo a cherdded, a lefel annibyniaeth.

## Risgiau a phroblemau posibl

Nododd astudiaeth o 61 o gleifion fod pedwar claf wedi datblygu sbondylolysis a spondylolisthesis (ysigiad a rhan o'r asgwrn cefn yn slipio) yn rhan isaf y cefn rhwng tair a phum mlynedd ar ôl y driniaeth.

Mewn tair astudiaeth cafodd 55% o gleifion allan o 105 o gleifion sgoliosis (crymedd asgwrn y cefn) o fewn pedair blynedd, 43% o gleifion allan o 98 o fewn chwe mlynedd, a 50% o gleifion allan o 30 o gleifion o fewn 21 mlynedd.

Yn yr astudiaeth o 208 o gleifion, datblygodd 20 broblemau â gwagu'r bledren, a wellodd o fewn pedair wythnos mewn 18 o'r cleifion.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod cymhlethdodau posibl y driniaeth yn cynnwys marwolaeth, symudedd yn gwaethygu (gan gynnwys parlys), haint yn y clwyf, llid yr ymennydd, hylif o asgwrn y cefn yn gollwng, y clun(iau) yn afleoli, poen yn y cefn, poen cronig, aflonyddu synhwyrol, rhwymedd, gwendid, llid yr arachnoid (un o'r pilennau sy'n diogelu'r nerfau yn asgwrn y cefn) a ffurfio syst neu geudod yn asgwrn y cefn.

## Rhagor o wybodaeth am barlys yr ymennydd

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar barlys yr ymennydd, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

## NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i’r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy’n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy’n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

*I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae’n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance*

*Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'rrhisotomi dethol y cefn ar gyfer sbastigedd ym mharlys yr ymennydd’. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG245*

*Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.*

**National Institute for Health and Clinical Excellence**
MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8344-5

N2434 1P December 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.